Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**The Towers Day Nursery Ltd**

**Llangollen Road**
**Acrefair**
**Wrecsam**
**LL14 3SG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/11/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# The Towers Day Nursery Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | The Towers Day Nursery Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 23 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Cliciwch neu pwyswch yma i gynnwys testun.<br>28 Chwefror 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Cliciwch neu pwyswch yma i gynnwys testun.<br>Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Caiff y plant rywfaint o ddewisiadau a gallant gyfathrebu'n hyderus, gan wybod yr ymatebir iddynt yn briodol y rhan fwyaf o'r amser. Mae'r plant wedi setlo'n dda ac yn rhyngweithio'n briodol ar y cyfan. Cânt gyfleoedd i fwynhau eu chwarae ac mae rhai gweithgareddau ac adnoddau yn cefnogi eu dysgu.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw wrth roi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith. Weithiau maent yn rhyngweithio'n effeithiol â'r plant pan fyddant yn helpu i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol y plant, ond gellid eu gwella. Mae'r staff yn olrhain datblygiad y plant yn briodol, ond nid yw'r trefniadau cynllunio yn ystyried y camau nesaf yn nysgu'r plant nac yn cyfoethogi a hybu eu diddordebau.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel a chaiff asesiadau risg rheolaidd eu cwblhau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardaloedd addas i'r plant i chwarae'n ddiogel. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Gwnaed rhai gwelliannau i'r cyfarpar a ddarperir ond mae'r broses hon yng nghamau cynnar y datblygiad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau yn adlewyrchu'r ymarfer a'r gofal presennol. Caiff rhai gwelliannau eu cynllunio a'u rhoi ar waith i wella'r gwasanaeth. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod nifer addas o staff. Fodd bynnag, ni chânt eu defnyddio'n effeithiol bob amser. Mae gan y staff y cymwysterau priodol sydd eu hangen i ofalu am y plant. Fodd bynnag, nid yw ffeiliau'r staff bob amser wedi'u cwblhau i ddangos bod y gwiriadau priodol wedi'u cwblhau cyn iddynt ddechrau yn eu rôl.

| Llesiant | Digonol |
|---|---|

Caiff y plant rywfaint o ddewisiadau rhydd wrth iddynt symud o gwmpas a dewis o'r adnoddau sydd ar gael. Maent yn cyfathrebu'n briodol wrth iddynt ofyn am yr eitemau y maent am eu cael neu'n dangos mynegiant i'r staff os byddant am iddynt chwarae neu ryngweithio â nhw. Er enghraifft, gwnaeth plentyn fynd â llyfr at aelod o'r staff i ddangos ei fod am iddynt ei ddarllen. Ymatebodd y staff yn dda a gwnaethant edrych ar y llyfr gyda'i gilydd. Ar y cyfan, mae'r plant yn hyderus y gwrandewir arnynt, a bydd eu hanghenion yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, weithiau ni chânt ymateb i'w hymdrechion i gyfathrebu'n effeithiol. Er enghraifft, dechreuodd un plentyn grio pan oedd wedi gorffen ei ginio a gofynnodd y staff iddo a oedd yn dal eisiau bwyd ond ni wnaethant ddarparu mwy o ginio.

Mae'r mwyafrif o'r plant wedi setlo ac yn hyderus wrth gael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni. Mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff ac maent yn ddigon bodlon i fynd atynt i gael cysur, cymorth a sicrwydd pan fydd angen. Mae'r plant yn gymharol ymwybodol o'r arferion ac yn eu dilyn. Er enghraifft, maent yn fodlon mynd i gael eu cewynnau wedi'u newid pan y gofynnir iddynt, gan wybod y byddant yn cael dychwelyd a pharhau i chwarae. Mae'r plant yn hyderus yn eu hamgylchedd gan eu bod yn gyfarwydd â'r lleoliad, sy'n eu helpu i gael ymdeimlad o berthyn.

Mae'r plant yn dysgu sut i ryngweithio a chyd-chwarae ag eraill. Er enghraifft, gwnaeth dau blentyn chwarae â'r tŷ doliau bach yn hapus gyda'i gilydd.  Mae rhan fwyaf o'r plant yn ymwybodol o ddisgwyliadau ymddygiad ac yn ymateb yn dda i'r ganmoliaeth a gânt gan y staff, sy'n eu helpu i deimlo'n falch. Mae rhan fwyaf o'r plant yn parchu'r teganau a'r adnoddau. Ar y cyfan, maent yn eu defnyddio'n briodol ac yn helpu i'w rhoi i gadw pan ofynnir iddynt wneud hynny.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgaredd. Roedd y babanod yn mwynhau chwarae yn y pwll peli a symud o gwmpas ar y teganau reidio. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r plant yn ymgysylltu nac yn canolbwyntio'n llwyr gan nad oedd y gweithgareddau a'r cyfarpar yn helpu i ysbrydoli eu chwarae, eu dysgu a'u chwilfrydedd. Daeth rhai o'r plant atom a rhannu'r hyn roeddent yn ei wneud, gan ddangos eu mwynhad. Roedd llawer o chwerthin a gwenu yn ystafell y babanod wrth iddynt chwarae bi po yn y twnel.

Caiff y plant rai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau ac i fod yn annibynnol. Gallant symud yn rhydd o gwmpas eu hystafelloedd dynodedig a defnyddio'r cyfarpar sydd ar gael gan y staff. Fodd bynnag, nid oedd yn hawdd cael gafael ar rai cyfarpar a chymryd rhan mewn rhai gweithgareddau priodol er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol. Mae'r plant yn hapus i roi cynnig ar rai tasgau drostynt eu hunain. Er enghraifft, roedd y plant yn hyderus dros ben wrth fwydo eu hunain.

| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
|---|---|

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith yn effeithiol. Caiff y staff hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn deall y weithdrefn i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae nifer addas o staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf, sy'n sicrhau y byddant yn delio â mân ddamweiniau yn briodol. Cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y staff a'r plant yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn mewn argyfwng.

Mae'r staff yn darparu dewisiadau bwyd addas, fel bod y plant yn dilyn deiet iach. Mae gofal personol fel sychu trwyn a newid cewynnau yn cael eu cwblhau'n briodol, sy'n helpu i atal croeshalogi. Caiff arferion glanhau eu cwblhau'n effeithiol er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu. Er enghraifft, caiff byrddau a chadeiriau uchel eu glanhau cyn eu defnyddio a chaiff dwylo eu golchi ar adegau priodol. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio'r ardal awyr agored er mwyn iddynt gael awyr iach a chael cyfle i ymarfer corff.

Mae'r staff yn ofalgar tuag at y plant. Ar y cyfan, maent yn rhyngweithio'n dda â nhw i gefnogi eu chwarae a'u dysgu. Fodd bynnag, weithiau nid yw'r rhyngweithio'r plant mor ystyrlon a chefnogol ag y gallent fod, ac nid ydynt bob amser yn hybu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu'r plant. Er enghraifft, roedd y staff yn sefyll i fyny ac yn bwydo'r babanod mewn cadeiriau uchel. Gwnaethant symud o gwmpas yn helpu'r gwahanol blant, felly ni allent gefnogi nac annog sgiliau neu ryngweithio cymdeithasol cadarnhaol. Eisteddodd sawl aelod o'r staff ar lefel y plant a chefnogi eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, clywsom lawer o chwerthin pan oedd plentyn yn rhoi bloc plastig ar ben un aelod o'r staff. Mae'r staff yn canmol y plant yn briodol er mwyn cefnogi ac annog rhyngweithio cadarnhaol.

Mae'r staff yn cynnig cyfarpar a gweithgareddau addas ar gyfer y plant i gefnogi eu dysgu a'u datblygiad. Maent yn dechrau datblygu ardaloedd dysgu y gall y plant eu defnyddio. Fodd bynnag, mae'r broses hon yn y camau cynnar ac ni roddir ystyriaeth bob amser i ddodrefnu'r ardaloedd hyn na modelu sut y gellid eu defnyddio. Er enghraifft, maent wedi cyflwyno cegin mwd sy'n rhydd i'w defnyddio yn y brif ardal chwarae yn yr awyr agored ond nid oes pridd ar gael. Mae'r staff wedi cyflwyno ffordd newydd o olrhain datblygiad y plant. Mae'n cofnodi'r hyn y gallant ei wneud ac yn nodi'r camau nesaf yn eu dysgu. Caiff rhywfaint o gynllunio eu cwblhau ond nid yw'n effeithiol gan ei fod yn canolbwyntio ar arferion a'r cyfarpar a fydd ar gael i'r plant gan y staff. Nid yw'n ystyried anghenion datblygu'r plant na'u diddordebau.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod y plant yn ddiogel. Caiff asesiadau risg eu cynnal a'u diweddaru'n rheolaidd i sicrhau bod unrhyw beryglon yn cael eu rheoli'n dda. Mae'r drysau allanol a'r giatiau yn gadarn i atal mynediad heb awdurdod neu er mwyn atal y plant rhag gallu gadael heb oruchwyliaeth. Caiff cofnodion priodol eu cwblhau fel y gellir rhoi cyfrif ar bawb mewn argyfwng.

Mae'r amgylchedd yn rhoi digon o le ac ardaloedd i'r plant chwarae. Mae gan ystafell y babanod ardal i'r babanod gropian, i ddechrau cerdded ac i ddefnyddio eitemau gwthio i helpu eu datblygiad corfforol. Caiff y plant hŷn rywfaint o gyfle i allu dewis chwarae dan do neu yn yr awyr agored. Er bod hyn ar gael, nid yw bob amser yn cael ei hybu na'i ddefnyddio'n effeithiol gan y staff i sicrhau bod y plant yn cael y gofod priodol drwy'r dydd. Er enghraifft, ni chaiff yr ardaloedd awyr agored eu defnyddio pan oedd y plant a'r babanod i gyd mewn un ystafell ar ddechrau'r dydd, gan olygu bod y gofod yn gyfyngedig. Mae gan yr amgylchedd gyfleusterau addas ar gyfer y plant, gan gynnwys toiledau ar lefel isel ac ardal newid cewynnau. Caiff rhywfaint o waith y plant ei arddangos, gan helpu'r plant i gael ymdeimlad o berthyn a balchder yn yr hyn y maent wedi'i wneud.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwneud rhai gwelliannau i'r cyfarpar a roddir i'r plant. Roedd y plant yn gallu cael gafael ar rywfaint o gyfarpar sy'n briodol o ran oedran. Er enghraifft, gwnaeth y babanod fwynhau'r pwll peli ac roedd y plant hŷn yn mwynhau chwarae â'r tŷ doliau byd bach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dechrau cyflwyno mwy o ddeunyddiau naturiol gan gynnwys tywod a theganau pren. Fodd bynnag, mae'r broses hon yn y camau cynnar iawn ac nid yw rhai ardaloedd wedi'u hymsefydlu'n llawn ac yn cynnwys cyfarpar addas. Prin yw'r cyfleoedd i'r plant ddefnyddio ardaloedd sy'n ysbrydoli eu chwilfrydedd, yn datblygu eu creadigrwydd, ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth **Digonol**

Rhoddir polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth ar waith yn briodol. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r ymarfer a'r gofal presennol a ddarperir. Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n bodloni'r rheoliadau ac yn galluogi'r rhieni i benderfynu ai dyma'r gofal cywir ar gyfer eu plentyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gwrando ar y cyngor a roddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf ac maent wedi gwneud rhai gwelliannau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau adolygiad blynyddol o'r lleoliad a'r gofal a ddarperir. Maent yn llunio adroddiad ar ansawdd y gofal er mwyn dangos eu bod wedi edrych ar yr hyn sydd wedi'i wneud yn dda, a'r gwelliannau sydd eu hangen o bosibl. Maent yn gofyn am safbwyntiau'r rhieni ond nid ydynt yn cael llawer o ymatebion i sicrhau y gall yr holl safbwyntiau eu hystyried. Mae'r adroddiad ar ansawdd y gofal yn dangos rhywfaint o welliannau sy'n cael eu hystyried a'u rhoi ar waith. Er enghraifft, maent wedi adolygu rhai o'r ystafelloedd a'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant. Gwelir bod hyn yn llwyddiannus yn ystafell y babanod, sydd bellach yn fwy croesawgar, ac yn canolbwyntio ar y plentyn sy'n eu galluogi i chwarae ac i ddatblygu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gan y staff y cymwysterau cywir sydd eu hangen i ofalu am y plant. Roedd gan ffeiliau'r staff rywfaint o dystiolaeth i ddangos bod y gweithdrefnau recriwtio priodol wedi'u dilyn a bod y staff yn addas i ofalu am y plant. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth ar goll, gan gynnwys gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, datganiadau iechyd a thystiolaeth o weithdrefnau sefydlu priodol. Ystyriwn fod hwn yn fater difrifol, ac felly, rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac rydym yn disgwyl i'r Unigolyn Cyfrifol gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r rhain a gwneud gwelliannau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall y cymarebau a ddisgwylir sydd eu hangen i sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n ddigonol. Fodd bynnag, ar sawl achlysur, nid oedd yr ystafelloedd yn cyrraedd y gymhareb a ddisgwylir rhwng yr oedolion a'r plant. Roedd digon o staff yn y lleoliad, ond nid oeddent yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Ystyriwn fod hwn yn fater difrifol, ac felly, rydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ac rydym yn disgwyl i'r Unigolyn Cyfrifol gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r rhain a gwneud gwelliannau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ystyried sut i ddatblygu eu cydberthnasau â'r rhieni ymhellach. Maent yn cael sgyrsiau anffurfiol pan fydd y plant yn cyrraedd a phryd y cânt eu casglu fel y gall gwybodaeth gael ei rhannu. Yn ddiweddar, maent wedi cyflwyno nosweithiau rhieni wyneb yn wyneb ar gyfer y rhai sy'n dymuno cwrdd fel hyn. Caiff gwybodaeth am ddatblygiad y plant ei rhannu'n electronig yn rheolaidd, fel bod y rhieni yn cael gwybod am gynnydd eu plentyn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 9 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau ei fod yn defnyddio'r staff yn effeithiol, fel bod y cymarebau'n cael eu cyrraedd a bod y plant yn cael eu goruchwylio'n ddigonol. | Newydd |
| 28 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod ganddo yr holl wybodaeth ofynnol i ddangos bod y staff yn addas i ofalu am y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad. | Newydd |
| 20 | Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi sicrhau darpariaeth sy'n briodol i oedran ar gyfer gofal, lles, addysg a goruchwyliaeth y plant. | Cyflawnwyd |
| 14 | Nid oedd y Person Cofrestredig wedi sicrhau ei fod yn rhoi sylw i'r safonau gofynnol cenedlaethol sy'n | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | ymwneud â sicrhau bod person ychwanegol â chyfrifoldeb yn gweithio bob amser. | |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 8 - Maeth a lles | Sicrhau bod y rhyngweithio'n ystyrlon ac yn ysgogol ac y gwrandewir ar y plant. Dylid cael cyswllt llygad ac ar y cyfan, dylai'r cyfathrebu fod ar lefel plentyn. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod anghenion unigol y plant yn cael eu diwallu a bod eu llesiant yn cael ei hybu drwy gynllunio a darparu cyfleoedd a gweithgareddau chwarae, i hybu datblygiad emosiynol, corfforol, cymdeithasol, creadigol, ieithyddol a deallusol. |
| Safon 22 - Yr amgylchedd | Sicrhau bod yr amgylchedd yn darparu digon o le, a'i fod yn groesawgar i'r plant ac yn cynnig cyfleusterau priodol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau sy'n hybu eu datblygiad. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/12/2023